# Adroddiad Arolygu

**Alice Hardy**

**Llanelli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

15/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 26 Ebrill 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus ac anogir nhw i siarad ac i fynegi eu hunain. Maent yn fodlon ac wedi ymgartrefu ac yn rhyngweithio, yn cydweithio ac yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Mae'r plant yn mwynhau chwarae rhydd ac yn ymgysylltu'n hyderus â'u profiadau dysgu. Cânt gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae hi'n ofalgar ac yn ymatebol i anghenion y plant ac yn creu ethos cadarnhaol lle mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n parchu dewisiadau'r plant ac maent wedi ffurfio ymrwymiadau hoffter cadarnhaol â'i gilydd. Mae'n annog amgylchedd dysgu chwarae rhydd ac yn darparu ystod dda o weithgareddau i hyrwyddo sgiliau datblygiadol y plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae gan y plant fynediad at ystod o deganau, adnoddau ac offer o ansawdd da, sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion ac sy'n eu galluogi i chwarae, archwilio a dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad mewn modd digonol ac mae ganddi'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn bodloni'r rheoliadau perthnasol, a'r tro hwn, rydym wedi nodi Maes i'w Wella. Nodir hyn yng nghefn yr adroddiad. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei gwasanaeth yn briodol ac yn gwneud gwelliannau lle bo angen. Mae rhieni yn ei chanmol yn fawr.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais yn y lleoliad. Gallant fynegi eu barn a'u hanghenion mewn amrywiaeth o ffyrdd a chânt gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant yn fodlon ac yn dangos mwynhad, mynegant eu hanghenion a'u hoffterau yn hyderus, a gwyddant y gwrandewir arnynt. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn i'r gwarchodwr plant am bapur, ac ymatebodd ar unwaith.

Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent yn gyfarwydd â'r drefn arferol. Caiff teimladau, hoff bethau, cas bethau ac anghenion y plant eu diwallu wrth iddynt ffurfio ymrwymiadau hoffter. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gadarnhaol ac mae'r plant yn dangos lefelau da o ddiddordeb ac ymgysylltiad yn eu chwarae a'u dysgu. Mae'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn symud o gwmpas yn hyderus. Cânt sgyrsiau ystyrlon â'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, roedd un plentyn yn siarad â'r gwarchodwr plant am ei ysgol newydd a'i ddiwrnod pontio.

Mae'r plant yn ddiogel ac yn hapus, ac maent yn chwarae'n briodol gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn rhyngweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion a'r gwarchodwr plant. Mae’r plant yn dysgu pwysigrwydd rhannu, cymryd tro a chydweithio ag eraill. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd, yn chwerthin ac yn cael hwyl ond maent hefyd yn parchu dymuniadau ei gilydd pan fyddant am chwarae ar eu pen eu hunain. Gwelsom rai plant yn chwarae gyda'r blociau gyda'i gilydd tra bod un arall yn dewis gwneud jig-sos ar ei ben ei hun. Mae'r plant yn derbyn canmoliaeth ac anogaeth ystyrlon gan y gwarchodwr plant pan fyddant yn rhoi cynnig ar dasgau ac yn amlwg yn gwerthfawrogi'r sicrwydd. Er enghraifft, roedd y gwarchodwr plant yn annog plentyn a oedd yn cwblhau'r jig-sos ac yn ei ganmol gan ddweud *“Rwyt ti wedi gwneud hyn mor dda, da iawn ti"* a gwenodd y plentyn yn falch. Mae'r gwarchodwr plant yn trin y plant â pharch, ac mae ganddi ddisgwyliadau realistig am eu hymddygiad a'u cyfnod datblygiadol.

Mae'r plant yn ymgysylltu yn hyderus yn eu chwarae a'u dysgu, a chânt gyfleoedd i ymlacio a mwynhau amser tawel. Gallant ganolbwyntio am gyfnod priodol o amser i'w hoedran a chyfnod eu datblygiad. Mae'r plant yn datblygu eu hiaith trwy eu chwarae, gan enwi lliwiau o'u cwmpas a siarad am rifau wrth iddynt gyfrif y blociau.

Mae'r plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gan gynnwys datrys problemau yn eu chwarae, helpu i dacluso'r teganau ar ôl gweithgareddau, ymolchi eu dwylo a thynnu eu hesgidiau a'u cotiau. Gwnânt hyn yn annibynnol gyda pheth cymorth a chyfarwyddyd gan y gwarchodwr plant pan fo angen.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda. Mae'n gweithredu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y plant yn ddiogel yn y lleoliad, fodd bynnag, mae angen eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Yn ystod yr arolygiad, mae'r gwarchodwr plant wedi adolygu ei pholisi diogelu ac wedi sicrhau bod ei hyfforddiant yn gyfredol. Mae ganddi'r wybodaeth a'r hyfforddiant cymorth cyntaf ddiweddaraf. Mae'r plant yn dod â'u pecynnau bwyd a byrbrydau eu hunain i gartref y gwarchodwyr plant. Mae'n annog bwyta'n iach ac yn sicrhau ei bod yn dilyn gweithdrefnau hylendid da. Er enghraifft, anogodd y gwarchodwr y plant i ymolchi eu dwylo cyn byrbryd.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithiadau â'r plant yn llwyddiannus. Mae'n hyrwyddo hyder a hunan-barch y plant yn gadarnhaol ac yn darparu ymdeimlad gwych o fwynhad a hwyl. Er enghraifft, gwelsom ni hi'n cynnwys pob plentyn yn y gweithgareddau grŵp fel y gallent i gyd chwarae eu rhan. Mae'r gwarchodwr plant yn atgoffa'r plant o reolau'r lleoliad yn rheolaidd trwy gydol y sesiwn. Er enghraifft, ysgogodd un plentyn a oedd yn cerdded o gwmpas gyda darnau jig-so i'w cadw nhw'n ddiogel, *"Cofia gadw'r darnau ar y bwrdd fel nad ydyn ni'n eu colli."* Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn ei pholisi rheoli ymddygiad yn hyderus; gan weithredu strategaethau cadarnhaol i hyrwyddo ymddygiad da yn effeithiol yn gyson. Gwnaeth y gwarchodwr plant atgoffa'r plant i fod yn ddiogel ac atgyfnerthodd y disgwyliadau o ran ymddygiad da. Er enghraifft, gofynnodd i'r plant helpu i roi'r teganau i gadw cyn dod â mwy allan, a chanmolodd hi nhw pan wnaethon nhw hynny, *"Diolch am dacluso, da iawn chi."* Mae'r plant yn mwynhau chwarae'n gydweithredol ac yn aml yn cymryd eu tro. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio iaith gadarnhaol i gefnogi eu dealltwriaeth ac i ddilysu eu teimladau, *"Rwy'n gwybod dy fod ti'n hoffi'r tegan hwn, ond mae'n garedig i'w rannu, felly pan fyddi di wedi gorffen, rho dro i dy ffrind?"*

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu dewis da o gyfleoedd chwarae a dysgu pleserus a heriol o dan do ac yn yr awyr agored yn yr ardal leol i hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant. Mae'n cynllunio gweithgareddau a gwibdeithiau i ddatblygu gwybodaeth y plant, fodd bynnag, nid yw ar hyn o bryd yn gwneud cofnodion ffurfiol o'i chynllunio nac o gynnydd y plant ar hyn o bryd. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'r plant yn ei gofal ac mae'n gwybod beth yw eu hoff bethau a'u cas bethau. Mae hi'n cynorthwyo eu gwybodaeth o'r Gymraeg yn arbennig o dda, gan gyfieithu geiriau ac ymadroddion y mae hi wedi eu dweud yn Saesneg yn aml, *"Beth yw e? Dafad! Da iawn!"* Mae hi'n annog sgiliau annibyniaeth y plant yn gyson. Er enghraifft, mae hi'n canmol y plant pan fyddant yn gallu gwisgo neu dynnu eu hesgidiau, ac mae'n cynnig cefnogaeth lafar i helpu eu hannibyniaeth yn ystod cinio, gan gynnwys dod o hyd i'w bocsys bwyd a bwyta'n annibynnol.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac yn sicrhau bod y plant yn ddiogel yn ei chartref. Mae'r adeilad yn ddiogel, mae'r drws ffrynt dan glo ar bob adeg ac mae ymwelwyr yn llofnodi i mewn ac allan o'r lleoliad. Mae asesiadau risg effeithiol ar waith ac mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân i sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud os byddai'n rhaid gadael mewn argyfwng tân. Nid oedd y cofnodion ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, fodd bynnag, rydym wedi eu gweld ers hynny. Mae gan y gwarchodwr plant yr yswiriant priodol ar waith ac yn ystod yr arolygiad, sicrhaodd fod ei gwiriad diogelwch nwy blynyddol wedi'i gwblhau.

Mae'r ystafell chwarae yn lân ac yn groesawgar gyda phosteri addysgiadol a gwaith celf y plant ar y waliau. Mae digon o le, cyfarpar ac adnoddau i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn storio adnoddau a deunyddiau yn yr ystafell fyw yn effeithiol fel y gall y plant archwilio'r amgylchedd yn ddiogel a bod yn annibynnol. Mae ardal awyr agored gaeedig fawr, ond nid yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd oherwydd ei fod yn cael ei hatgyweirio. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad rheolaidd i'r awyr agored trwy fynd â nhw i'r parc neu i'r cae rygbi y tu ôl i'r tŷ.

Mae amrywiaeth briodol o adnoddau a chyfarpar sydd wedi'u trefnu'n dda ac mewn cyflwr da ar gael i'r plant. Maent yn briodol i oedran a chyfnod datblygiad i gefnogi anghenion, diddordebau a datblygiad unigol y plant. Er enghraifft, roedd y plant yn gallu dewis o amrywiaeth o jig-sos, teganau adeiladu, llyfrau, teganau cerddorol ac ystod eang o adnoddau crefft. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i fod yn chwilfrydig yn eu dysgu trwy ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi eu datblygiad. Er enghraifft, roedd y plant yn gallu dewis o nifer o jig-sos yn amrywio mewn anhawster a theganau cerddorol gwahanol a oedd yn gofyn i'r plant archwilio'r botymau a'r switshis i ddarganfod sut roedden nhw'n gweithio. Mae gan y plant fynediad hawdd i'r gegin, yr ystafell chwarae a'r cyntedd lle gallant storio eu heiddo a dod o hyd iddynt yn annibynnol.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
| --- | --- |

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad mewn modd digonol ac mae ganddi'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd dyddiad na llofnod i gadarnhau ei bod yn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae ganddi ddatganiad o ddiben sy'n rhoi gwybodaeth i rieni am y gwasanaeth y mae'n ei gynnig ac fe ddiweddarodd hwn yn dilyn yr ymweliad arolygu. Ni chwblhaodd y gwarchodwr plant ei Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Mae hi’n ymwybodol bod angen cyflwyno hwn i AGC o dan Adran 44 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac adrannau 60(1)(b) a 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol ei chofrestriad yn llawn. Nid ydym wedi cyhoeddi hysbysiad y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith na risg uniongyrchol i'r plant sy'n defnyddio'r lleoliad. Rydym yn disgwyl i'r gwarchodwr plant gymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae gan y gwarchodwr plant systemau priodol ar waith ar gyfer cael safbwyntiau rhieni, gofalwyr a'r plant yn rheolaidd yn ei lleoliad. Mae hi'n ymgorffori'r adborth yn llwyddiannus yn ei hadolygiad ansawdd gofal a gwblhawyd yn ystod yr arolygiad. Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod yr hyn y mae hi wedi'i wneud yn dda ac mae hi hefyd wedi nodi ffyrdd y gallai wella’r lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ganddi wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer ei hun ac aelodau eraill o'r cartref. Mae ganddi gymwysterau a hyfforddiant priodol sy'n addas ar gyfer y plant yn ei gofal. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol ar gyfer y plant ac mae hi'n cofnodi eu presenoldeb yn gywir ac yn bodloni'r cymarebau. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant bob amser yn hysbysu AGC am newidiadau i aelodau'r cartref. Rydym wedi nodi hwn fel Maes i'w Wella a disgwyliwn i'r gwarchodwr plant gymryd camau i unioni hyn. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu clir, ymgysylltu a gweithio ochr yn ochr â rhieni a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Mae hi'n hysbysu rhieni a gofalwyr trwy negeseuon a chyfathrebu ar lafar. Mae gan y gwarchodwr plant berthynas dda â'r rhieni sy'n defnyddio ei gwasanaeth. Er enghraifft, mae'n cefnogi rhieni a gofalwyr trwy gael sgyrsiau ystyrlon am anghenion eu plant ac yn eu cefnogi i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r adborth oddi wrth y rhieni yn dangos lefel uchel o foddhad gyda'r lleoliad. Er enghraifft, *“Dydy fy mhlentyn byth eisiau gadael”* a *“Mae’r gwarchodwr plant yn helpu fy mhlentyn i ddeall ac i ddysgu.”*

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Ystyried cadw cofnodion ysgrifenedig am gynllunio a chynnydd unigol pob plentyn i adlewyrchu eu datblygiad.

A2. Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

A3. Sicrhau bod y dogfennau gofynnol ar gael yn ystod yr arolygiad.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid yw'r gwarchodwr plant wedi hysbysu AGC am berson sy'n byw ar y safle. | Newydd |
| 25 | Nid yw'r gwarchodwr plant yn cydymffurfio oherwydd ni sicrhaodd fod y boeler nwy yn cael ei wasanaethu mewn modd amserol. | Cyflawnwyd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 02/11/2022